**How to spot where fish were once trapped at Goldcliff**

We're here at Goldcliff where there are lots of clues to how people used to fish in the River Severn. Behind me you can see wooden stakes going out into the estuary, coming out of the mud, and these used to be used to set fish baskets or putchers.

So this is a putcher: it's a fish basket, and it was woven by people who were fishing here and the salmon could swim into it, but they couldn't swim out the other end, so they got trapped. The people who were fishing would walk out at low tide to those stakes and then set these putchers on them. And as the salmon swarmed in on the incoming tide, they would then get caught in the putchers and at the next low tide the people fishing could walk out and collect their catch either to eat or to sell. They could set hundreds of these putchers at a time on these wooden frames which were called ranks. And the people who were fishing made these putchers themselves out of local willow, and the stakes are made of oak or larch and hammered 2 metres into the ground, which is possibly why they're still here today.

This fishery at Goldcliff was actually one of the largest and oldest fisheries in Wales, and it operated from the medieval times and was established by the monks at the monasteries until 700 years later, when it shut in 1995, and putchers have actually been found here preserved in the mud, which gives us lots of clues about how people used to use these.

So, in order to see these stakes, you need to come

**Darganfod lle cafodd pysgod eu dal ar un adeg yn Allteuryn**

Rydyn ni yma yn Allteuryn lle mae yna lawer o gliwiau am sut arferai pobl bysgota yn Afon Hafren. Y tu ôl i mi fe welwch bolion pren yn mynd allan i'r aber, yn sefyll yn y mwd, ac arferai'r rhain gael eu defnyddio i osod basgedi pysgod neu '*putchers*' arnyn nhw.

A dyma un o'r basgedi honno: basged bysgod, wedi'i wehyddu gan bobl a oedd yn pysgota yma. Gallai'r eogiaid nofio i mewn iddi, ond heb allu nofio allan trwy'r pen arall, ac felly yn cael eu dal. Byddai'r bobl a oedd yn pysgota yn cerdded allan ar lanw isel i'r fframiau pren hyn ac yna'n gosod y basgedi arnyn nhw. Ac wrth i'r eogiaid heidio i mewn gyda'r llanw, roedden nhw'n cael eu dal yn y basgedi, ac ar y llanw isel nesaf, byddai'r bobl yn cerdded allan a chasglu'r pysgod naill ai i'w bwyta neu i'w gwerthu. Roedd posib gosod cannoedd o fasgedi ar y tro ar y fframiau pren hyn a elwid yn '*ranks*'. Gwnaeth y bobl a oedd yn pysgota eu basgedi eu hunain allan o helyg lleol, a'r fframiau wedi'u gwneud o dderw neu larwydd a'u curo 2 fetr i mewn i'r ddaear, a dyna efallai pam eu bod nhw yma heddiw.

Roedd y bysgodfa hon yn Allteuryn yn un o'r pysgodfeydd mwyaf a hynaf yng Nghymru, ac fe weithredodd o'r canol oesoedd wedi'i sefydlu gan y mynachod yn y mynachdai, hyd at 700 mlynedd yn ddiweddarach pan gaeodd yn 1995. Cafwyd hyd i '*putchers*' yma wedi'u diogelu yn y mwd, sy'n rhoi llawer o gliwiau inni am sut roedd pobl yn arfer eu defnyddio.

| | |
|---|---|
| down to Goldcliff and then up onto the seawall, and you can see the stakes rising up out of the riverbed. Also, at Black Rock further down the coast you can sometimes see people lave net fishing on an incoming tide with very distinctive Y-shaped nets catching the salmon as they come in with the tide. And this is one of the last places that it's practised in Wales. | Felly, er mwyn gweld y fframiau pren hyn, mae angen i chi ddod i Allteuryn ac i fyny at y morglawdd, a gallwch weld y polion yn sefyll yng ngwely'r afon. Hefyd, ymhellach i lawr yr arfordir yn y Garreg Ddu, gallwch ambell dro weld pobl yn pysgota rhwyd gafl ar lanw sy'n dod mewn gyda rhwydi siâp ‘Y’ nodedig iawn, yn dal yr eogiaid wrth i’r pysgod nofio gyda'r llanw. A dyma un o'r lleoedd olaf y gwelir y math yma o bysgota yng Nghymru. |